**DATGANIAD I'R WASG**

**Coedwigoedd Glaw Cudd Cymru: Y Coetir Hynafol Hudolus Nad Ydych Chi Wedi Clywed Amdano Erioed Mae'n Debyg**

Mae ymchwil newydd a gomisiynwyd gan Plantlife Cymru i nodi Diwrnod Coedwigoedd Glaw y Byd (22 Mehefin 2025) yn datgelu bod mwy na hanner (55%*) pobl Cymru yn dweud eu bod yn deall beth yw *coedwigoedd glaw tymherus* ond eto mae nifer annisgwyl yn dal i'w cysylltu â gwledydd pell fel Brasil (44%*) – heb ddeall bod gan Gymru ei choedwigoedd glaw hynafol ei hun hefyd.

Am flynyddoedd cyfeiriwyd at y coedwigoedd yma fel "coedwigoedd derw Atlantaidd" neu "goedwigoedd glaw Celtaidd," ond mae'r term *coedwigoedd glaw tymherus* yn cyfleu eu prinder byd-eang yn well. Coetir ydi hwn gyda lefelau uchel o lawiad, hinsawdd fwyn a lefelau uchel o fioamrywiaeth. Mae'r amodau hinsoddol sy'n ofynnol i ffurfio coedwig law dymherus yn digwydd mewn llai nag 1% o'r blaned, sy'n ei gwneud yn gynefin gwerthfawr iawn.

*"Mae coedwigoedd glaw Cymru yn cuddio yn y golwg – mewn llecynnau fel coetiroedd y ceunentydd yn Eryri, a godreon Mynyddoedd Cambria,"* **meddai Adam Thorogood, Rheolwr y Rhaglen Coedwigoedd Glaw yn Plantlife**. *"Mae'r rhain yn llefydd hynafol gyda changhennau troellog, golau brith a meini wedi'u gorchuddio gan fwsoglau a chennau – goroeswyr ecosystemau cynharaf y Ddaear yn dyddio'n ôl 400 miliwn o flynyddoedd."*

Dim ond ar 1.8%** o'r dirwedd coedwigoedd glaw mae Coetiroedd Lled-Naturiol Hynafol i'w gweld. Mae hen goed a choetiroedd yn ffurfio craidd ein coedwigoedd glaw ac rydym wedi gweld eu bod yn gartref i fwy o rywogaethau dan fygythiad a bregus nag unrhyw gynefin arall yng Nghymru***. Mae'r wlad yn gartref i gyfrannau uchel o rywogaethau pwysig o adar y coetir - tua 70% o boblogaeth y Gwybedog Brith ym Mhrydain, 44% o boblogaeth Telor y Coed a 37% o boblogaeth y Tingoch**.

Mae coedwigoedd glaw tymherus Cymru dan fygythiad oherwydd clefydau coed, rheolaeth amhriodol, newid hinsawdd, colli a darnio cynefinoedd a llygredd aer.

Mae pobl yng Nghymru eisiau i'r llywodraeth wneud mwy – gyda 89%* o bobl yn dweud y dylai roi blaenoriaeth i warchod coedwigoedd glaw tymherus.

*"Os yw coedwigoedd glaw Cymru am oroesi a ffynnu, mae angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau brys. Ochr yn ochr â'n chwe phartner yng Nghynghrair Coedwigoedd Glaw Cymru, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda ni i ddatblygu strategaeth sy'n mynd i'r afael â'r bygythiadau niferus mae coedwigoedd glaw yn eu hwynebu.*

*Heb gyllid wedi'i deilwra ar raddfa fawr, ni fydd y newid sydd ei angen i adfer coedwigoedd glaw Cymru yn digwydd a bydd y fioamrywiaeth gyfoethog sy'n gysylltiedig â'r coetiroedd hyn yn dirywio ymhellach,"* **meddai Lesley Fletcher, Pennaeth Plantlife Cymru.**

Plantlife International - The Wild Plant Conservation Charity is a charitable company limited by guarantee. Patron HM King Charles III.
Registered Charity Number: England and Wales (1059559), Scotland (SC038951). Registered Company Number: England and Wales (3166339).
Plantlife respects your privacy. You can read more about how and why we use your personal data at plantlife.org.uk/privacy-notice

Mae Plantlife Cymru yn gweithio'n uniongyrchol gyda pherchnogion tir a rheolwyr i warchod a gwella bioamrywiaeth llawer o goedwigoedd glaw Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno prosiect Coedwigoedd Glaw Gwydn Cymru, sy'n cael ei gyllido gan y Rhaglen Rhwydweithiau Natur. Mae hefyd yn gweithio gyda sefydliadau amgylcheddol eraill fel rhan o Gynghrair Coedwigoedd Glaw Cymru (AWR) i adfer a rheoli ehangder coedwigoedd glaw ledled Cymru, gan sicrhau eu bod yn gallu ffynnu am genedlaethau i ddod.

#DiwrnodCoedwigoeddGlawYByd #CoedwigoeddGlawCymru #Bioamrywiaeth #CoedwigLawDymherus #CadwraethBywydGwyllt #AchubYGoedwigLaw #CaruNatur #Mwsogl #Cennau

**Nodiadau i olygyddion:**

**Pôl Opinion Matters – Mawrth 2025 ar 100 o bobl yng Nghymru.*

*** AWR – Cyflwr Coedwigoedd Glaw Cymru – adroddiad 2024*

**** Llywodraeth Cymru 2018: Strategaeth Coetiroedd i Gymru*

Mae Cynghrair Coedwigoedd Glaw Cymru yn cynnwys: Plantlife Cymru; Coed Cadw; Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; RSPB Cymru; Ymddiriedolaethau Natur Cymru.

**Lluniau a fideo ar gael i'w defnyddio gan gydnabod y ffynhonnell:**
https://www.dropbox.com/scl/fo/uohqb7jrszw59jehvino2/AlhqF_6dGGwGbn1p21i8X8M?rlkey=dl1lxcjrybvz9nlv5p5eynm0j&st=5khnw8e8&dl=0

**Cyswllt cyfryngau:**
Am ragor o wybodaeth neu i drefnu cyfweliad yn y Gymraeg cysylltwch ar:
01722 342730 (opsiwn 2)
press@plantlife.org.uk
jules.walkey@plantlife.org.uk
archie.thomas@plantlife.org.uk

**DIWEDD**

**Am Plantlife:**
Plantlife yw'r elusen fyd-eang sy'n gweithio i wella, gwarchod, adfer a dathlu'r planhigion gwyllt a'r ffyngau sy'n hanfodol i holl fywyd y ddaear. Gyda dwy o bob pum rhywogaeth o blanhigion mewn perygl o ddifodiant, mae colli bioamrywiaeth yn digwydd ar raddfa gyflymach nag erioed nawr, ac mae gwaith Plantlife yn fwy hanfodol nag erioed. Mae Plantlife yn hyrwyddo ac yn cyflymu gweithredu cadwraeth, gan weithio wrth galon rhwydwaith byd-eang o unigolion a sefydliadau i ysbrydoli a dylanwadu ar berchnogion a rheolwyr tir, cyrff cyhoeddus a phreifat, llywodraethau a chymunedau lleol. Wrth i amser ddechrau prinhau, bydd safle Plantlife fel y llais byd-eang ar gyfer planhigion gwyllt a ffyngau yn helpu i sicrhau newid parhaol a chadarnhaol i'n byd naturiol ni – er lles pawb.

Plantlife Cymru